

Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru
Cofnodion cyfarfod dydd Mercher 26 a dydd Iau 27 Ionawr 2022

Aelodau:

Lindsay Foyster	Cadeirydd ac aelod anweithredol
Adrian Crompton	Prif Weithredwr ac Archwilydd Cyffredinol Cymru
Alison Gerrard	Aelod anweithredol a Chadeirydd y Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol ac Adnoddau Dynol (AD)
Adam Marshall	Aelod gyflogai etholedig (EEM)
Anne Beegan	Aelod gyflogai etholedig (ac eithrio eitemau 5 a 6)
David Francis	Aelod anweithredol ac Uwch-gyfarwyddwr Annibynnol
Elinor Gwynn	Aelod anweithredol
Ian Rees	Aelod anweithredol a Chadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg
Kevin Thomas	Aelod gyflogai penodedig a Chyfarwyddwr Gweithredol y Gwasanaethau Corfforaethol (EDCS) (Dydd Iau, 27 Ionawr 2022)

Ymddiheuriadau: Kevin Thomas (Dydd Mercher, 26 Ionawr 2022)

Yn bresennol:

Anne-Louise Clark	Cyfarwyddwr Gweithredol Cyfathrebu a Newid (EDCC)
Ann-Marie Harkin	Cyfarwyddwr Gweithredol y Gwasanaethau Archwilio (EDAS)
Katherine Drysdale	Arbenigwr y Gyfraith a Moeseg (cofnodion)
Amy Everson	Rheolwr Newid Prosiect (eitemau 3 a 4)
Matthew Hockridge	Pennaeth Cynllunio ac Adrodd (eitemau 3, 4, 13 a 14)
Nicola Evans	Pennaeth Cyllid (eitem 13)
Richard Harries	Cyfarwyddwr Archwilio (eitem 15)
Terry Jones	Rheolwr Archwilio (eitem 15)

Arsyllwyr:

Frances Haslam	Lleoliad Gwaith y Gyfraith a Moeseg (eitem 4)
Helen Williams	Arweinydd Archwilio (Dydd Iau, 27 Ionawr 2022, ac eithrio eitemau 18 a 19)
Tanya Reynolds	Swyddog Newid Prosiect (ac eithrio eitemau 18 a 19)

Eitem	Agenda
1.	Croeso gan y Cadeirydd ac ymddiheuriadau am absenoldebau
2.	Datganiadau o fuddiant
3.	Arolwg staff: ystyried ymateb y rheolwyr
4.	Amcanion cydraddoldeb strategol: ein huchelgais a mesur llwyddiant
5.	Adolygu'r cofnodion: Cyfarfod y Bwrdd 23 a 24 Tachwedd 2021
6.	Adolygu'r traciwr gweithredu
7.	Adroddiad y Prif Weithredwr a'r Archwilydd Cyffredinol
8.	Yr wybodaeth ddiweddaraf gan y Cadeirydd
9.	Adroddiad gan y Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol ac AD Ionawr 2022
10.	Adroddiad gan y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg Rhagfyr 2021
11.	Adolygiad Llywodraethu: yr wybodaeth ddiweddaraf

Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru
Cofnodion cyfarfod dydd Mercher 26 a dydd Iau 27 Ionawr 2022

Eitem	Agenda
12.	Trefniadau ar gyfer penodi EEM 2022
13.	Adrodd ar Berfformiad: (a) adroddiad cyllid (b) cofrestr risgiau strategol
14.	Cynllun Blynyddol 2022–23 a Strategaeth pum mlynedd - Dangosyddion Perfformiad Allweddol
15.	Y diweddraf am y penderfyniad i wneud gwaith archwilio cyfrifon yn fewnol
16.	Adolygiad o'r flaenraglen waith
17.	Adolygiad o'r cyfarfod
18.	Unrhyw fusnes arall (i gynnwys trafodaeth breifat ar deithio a chynhaliath)
19.	Dyddiad y cyfarfod nesaf: 16 a 17 Mawrth 2022

Eitem	Cofnodion	Gweithredu
Eitemau Sefydlog		
1.	Croeso gan y Cadeirydd ac ymddiheuriadau am absenoldebau	
1.1	Croesawodd y Cadeirydd yr aelodau a'r rhai a oedd yn bresennol. Nododd ymddiheuriad gan Kevin Thomas ar gyfer dydd Mercher 26 Ionawr 2022 ac na fyddai ei absenoldeb yn effeithio ar y cworwm. Nododd y Cadeirydd hefyd y gallai Anne Beegan ymuno â chyfarfod dydd Iau 27 Ionawr 2022 yn hwyr oherwydd cyfarfod ar yr un pryd â chorff archwiliedig.	
1.2	Byddai'r Cadeirydd yn ysgrifennu blog y cyfarfod, gyda chyfraniad gan yr EDCC a fyddai'n nodi'r pum neges allweddol o'r cyfarfod.	LF ALC
2.	Datganiadau o fuddiant	
2.1	Datganodd Adam Marshall, Anne Beegan a Kevin Thomas fuddiant yn eitem 9 (Adroddiad Cadeirydd y Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol ac AD). Datganodd Anne Beegan fuddiant yn eitem 12 hefyd (Trefniadau ar gyfer penodi EEM 2022). Byddai'r staff sy'n arsylwi yn gadael y cyfarfod yn ystod eitem 19 (unrhyw fusnes arall) a gynhelir yn breifat.	
3.	Arolwg staff: ystyried ymateb y rheolwyr	
3.1	Derbyniodd y Bwrdd gyflwyniadau, a oedd wedi eu dosbarthu cyn y cyfarfod hefyd, yn amlinellu canlyniadau'r arolwg ac ymateb y rheolwyr i'r arolwg.	
3.2	Atgoffodd yr EDCC y Bwrdd am y negeseuon allweddol a dynnwyd o ganlyniadau'r arolwg ac esboniodd y dull a gynlluniwyd gan y rheolwyr, gan adeiladu ar weithgarwch parhaus a'i ymgorffori, er mwyn mynd i'r afael â chwe maes pwyslais allweddol i gyflawni'r canlyniadau a ddymunir.	

Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru
Cofnodion cyfarfod dydd Mercher 26 a dydd Iau 27 Ionawr 2022

Eitem	Cofnodion	Gweithredu
3.3	<p>Esboniodd yr EDCC y byddai'r Tîm Arweinyddiaeth Gweithredol (ELT) yn ceisio dealltwriaeth ddyfnach o dri maes lle'r oedd canlyniadau'r arolwg yn adlewyrchu canfyddiadau staff bod Archwilio Cymru yn tanberfformio, gan gynnwys</p> <ul style="list-style-type: none"> • dysgu a datblygu; • rheoli newid; • cyflog a buddion. <p>Byddai'r ymchwil yn cynnwys cyfweiliadau i archwilio profiadau staff fel y gall yr ELT ddeall yn well pa gamau y mae angen eu cymryd ar lefelau sefydliad, cyfarwyddiaeth a thîm.</p>	
3.4	<p>Trafododd y Bwrdd y dull arfaethedig gan gynnwys amseru a blaenoriaethu gweithgarwch:</p> <ul style="list-style-type: none"> • er mwyn sicrhau effaith yn y tymor byr, canolig a hwy; ac • ystyried pwysau llwyth gwaith sylweddol a gweithgarwch parhaus arall, megis gweithredu ar deithio a chynhaliaeth a datblygu'r strategaeth bum mlynedd. 	
3.5	<p>Esboniodd yr Archwilydd Cyffredinol a'r Prif Weithredwr yr argymhelliad y dylai'r ELT ganolbwyntio ei ymdrechion ar fynd i'r afael â phwysau llwyth gwaith a materion adnoddau, drwy oedi (ond nid stopio'n llwyr) er mwyn:</p> <ul style="list-style-type: none"> • adolygu a chynllunio'r flaenraglen waith gan ganolbwyntio ar gyflawni'r gwaith statudol gofynnol; • asesu'r adnoddau sydd eu hangen i gyflawni'r rhaglen statudol graidd a dyrannu a/neu ailddyrannu staff yn unol â hynny; • cynllunio sut i ddefnyddio'r adnoddau sy'n weddill i gyflawni gwaith astudio / perfformiad effeithiol arall â phwyslais clir. 	
3.6	<p>Yng nghyd-destun ei swyddogaeth o ddarparu'r adnoddau i'r Archwilydd Cyffredinol gyflawni ei waith, gwnaeth y Bwrdd y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • cydnabod bod cyflawni'r gwaith sy'n ofynnol yn ôl statud yn sylfaenol ac y dylid rhoi blaenoriaeth iddo; • ystyried effaith barhaus pwysau llwyth gwaith ar staff a phwysigrwydd rhoi'r amser a'r capasiti i staff gyflawni eu swyddogaethau yn dda; • trafod yr angen i sicrhau bod lefelau adnoddau yn iawn yn awr ac yn y dyfodol, gan ystyried pwysau'r farchnad o ran recriwtio a chadw staff ac effaith gwneud penodiadau mewnol sy'n creu bylchau eraill mewn adnoddau; ac • ystyried yr effaith gadarnhaol y gallai mynd i'r afael â materion adnoddau ei chael ar y broses o ymgysylltu â chyflogeion a'r broses o gyflawni'r rhaglen waith. 	
3.7	<p>Trafododd y Bwrdd y canlynol yn gryno hefyd:</p> <ul style="list-style-type: none"> • effaith datblygu'r strategaeth bum mlynedd ar y broses o ymgysylltu â staff ac ar ddarparu eglurder o ran cyfeiriad a diben; 	

Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru
Cofnodion cyfarfod dydd Mercher 26 a dydd Iau 27 Ionawr 2022

Eitem	Cofnodion	Gweithredu
	<ul style="list-style-type: none"> • effaith yr amgylchedd allanol, gan gynnwys y pandemig a gweithio o bell, ar lesiant staff a gwerth meincnodi'r canlyniadau o'u cymharu â chanlyniadau ehangach y gwasanaeth sifil pan fyddant ar gael; • sut y gellid cyfleu cyfleoedd dysgu a datblygu, ac annog diwylliant o ddysgu hunanreoledd; • cyfleu i'r staff yn dryloyw ymateb y rheolwyr i'r arolwg, er mwyn cefnogi dealltwriaeth a chefnogaeth; • amseru a dulliau ceisio sylwadau ychwanegol gan staff. 	
3.8	<p>Gwnaeth y Bwrdd y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • cadarnhau ei fod yn ffyddiog bod y rheolwyr yn cydnabod ac yn deall y materion a godwyd drwy'r arolwg, gan gynnwys themâu sy'n ailadrodd a'i fod wedi cynllunio dull gweithredu priodol ar gyfer y dyfodol, gan ystyried cyfleoedd a heriau allweddol; • cymeradwyo'r dull a gynigiwyd gan y rheolwyr ar gyfer oedi, gan nodi er y gallai hyn effeithio ar gyflawni gwaith archwilio a chorfforaethol yn y tymor byr, ei fod yn cynnig cyfle i fynd i'r afael â'r dasg o ddarparu adnoddau a chynllunio'r gweithlu; ac • annog y rheolwyr i ystyried sut i gyfathrebu'n effeithiol â staff er mwyn esbonio'r rhesymeg dros yr adolygiad, a'r posibilrwydd o aildyrannu gwaith i gael eu cefnogaeth. 	
3.9	Byddai'r Cadeirydd a'r EDCC yn cynllunio'r amseru a'r fformat ar gyfer diweddariadau i'r Bwrdd yn y dyfodol gyda grŵp cynllunio y Bwrdd, a byddai'n cynnwys graffiau cyflenwad a galw a ddefnyddiwyd yn flaenorol i ddarparu cyflwyniad gweledol defnyddiol ynghylch darparu adnoddau.	LF/ALC
4.	Amcanion cydraddoldeb strategol: ein huchelgais a mesur llwyddiant	
4.1	Cyflwynodd yr EDCC weithdy i drafod cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn y gweithle, gan dynnu sylw at fanteision amrywiaeth mewn gweithle cynhwysol. Amlinellodd strwythur y gweithdy a fyddai'n cynnwys trafodaethau grŵp bach yn bwydo'n ôl i brif gyfarfod y Bwrdd.	
4.2	Cymerodd yr Aelodau ran mewn grwpiau trafod ar yr agweddau allweddol ar gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant a oedd o ddiddordeb iddynt, a gwnaethant ddarparu sylwadau i'r cyfarfod.	
4.3	Cyflwynodd yr EDCC amlinelliad o'r cyfleoedd i Archwilio Cymru gael effaith gadarnhaol ar gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant wrth redeg y busnes ac wrth gefnogi'r gwaith o gyflawni rhaglen waith yr Archwilydd Cyffredinol.	
4.4	Cymerodd yr Aelodau ran mewn grwpiau trafod ar sut i gryfhau ymrwymiad y Bwrdd i gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn ei swyddogaeth o sicrhau'r adnoddau cywir i gefnogi'r gwaith o gyflawni ei swyddogaethau a swyddogaethau Archwilydd Cyffredinol Cymru, a gwnaethant ddarparu sylwadau i'r cyfarfod.	
4.5	Daeth y Bwrdd i'r casgliad bod y sesiwn wedi bod yn ymarfer gwerthfawr ac y daeth safbwynt cyfunol cryf i'r amlwg ohono o ddull uchelgeisiol a oedd yn adlewyrchu gwerth croesawu, integreiddio a	

Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru
Cofnodion cyfarfod dydd Mercher 26 a dydd Iau 27 Ionawr 2022

Eitem	Cofnodion	Gweithredu
	datblygu cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn gadarnhaol y tu hwnt i bwyslais ar gydymffurfedd.	
4.5	Byddai'r EDCC yn trefnu i'r nodiadau o'r grwpiau trafod gael eu coladu a'u defnyddio i lywio'r gwaith o ddatblygu'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol.	EDCC
5.	Adolygu'r cofnodion: Cyfarfod Bwrdd 23 a 24 Tachwedd	
5.1	Cymeradwyodd y Bwrdd gofnodion ei gyfarfod ar 23 a 24 Tachwedd 2021, gan gadarnhau eu bod yn gywir.	
6.	Adolygu'r traciwr gweithredu	
6.1	<p>Trafododd y Bwrdd y materion a gododd o'i gyfarfodydd blaenorol gan ddefnyddio'r traciwr gweithredu y byddai Ysgrifennydd y Bwrdd yn ei ddiweddarau:</p> <ul style="list-style-type: none"> • WAOB/21/021 (Gwaith cyfathrebu ac ymgysylltu y Bwrdd) – byddai'r Cadeirydd a'r SID yn cymryd rhan yn y sesiynau adborth allanol ar gyfer y strategaeth bum mlynedd. • WAOB/21/035 (Gwaith ymgysylltu EEM i gefnogi effeithiolrwydd y Bwrdd) - byddai'r EEMau yn cynnal cyfathrebiadau â phanel cyflogaion yr ELT drwy sgwrs Teams, gyda chyfarfodydd ad hoc fel y bo'n briodol. 	
6.2	Nododd y Bwrdd y bwriad a nodwyd i ddisodli gwaith mapio lefel uchel yr egwyddor datblygu cynaliadwy (WAOB/21/001) ag awgrymiadau datblygu cynaliadwy i'w defnyddio gan y Bwrdd a staff Archwilio Cymru, yn dilyn cyngor y Rheolwr Archwilio Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Ar ôl trafod, cytunwyd y byddai'r EDCC yn dod â phapur i gyfarfod y Bwrdd ym mis Mawrth 2022 yn amlinellu'r cyngor ac yn esbonio'r awgrymiadau.	
6.3	Atgoffodd y Cadeirydd y rheolwyr, pan fo'r Bwrdd wedi gwneud penderfyniad neu gytuno ar gynllun gweithredu, y dylid dod ag unrhyw newid arfaethedig yn ôl i'r Bwrdd er mwyn adolygu a chytuno ar unrhyw newid o'r fath, a fyddai wedyn yn cael ei gofnodi'n briodol.	
6.4	Ymunodd Anne Beegan â'r cyfarfod	
7.	Adroddiad y Prif Weithredwr a'r Archwilydd Cyffredinol	
7.1	<p>Cyflwynodd yr Archwilydd Cyffredinol a'r Prif Weithredwr ei adroddiad a thynnodd sylw at y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • cyhoeddi adroddiadau proffil uchel a budd cyhoeddus effaith uchel ar fethiannau yng Nghyngor Sir Penfro a Chyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent; • ei gyfraniad i gynhadledd sector cyhoeddus Sefydliad Cyfrifwyr Siartredig Cymru a Lloegr ar y swyddogaeth allweddol y gall adroddiadau ac archwilio ariannol y sector cyhoeddus ei chwarae o ran cyflawni sero net; ac • y byddai'r swyddfeydd yn ailagor o ddydd Llun, 31 Ionawr 2022. Diolchodd hefyd i Alison Gerrard am gadeirio'r Gynhadledd Cyllid y Dyfodol. 	

Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru
Cofnodion cyfarfod dydd Mercher 26 a dydd Iau 27 Ionawr 2022

Eitem	Cofnodion	Gweithredu
7.2	<p>Tynnodd yr Archwilydd Cyffredinol a'r Prif Weithredwr sylw'r Bwrdd hefyd at newidiadau i waith ailstrwythuro arfaethedig tîm y Gyfraith a Moeseg. Eglurodd y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • yn dilyn proses deg a deimlai'n drylwyr, gwerthuswyd mai gradd 4 yw dwy swyddogaeth (yn hytrach na gradd 3) oherwydd cymhlethdod y gwaith a wneir gan y swyddogaethau hynny gyda chynnydd dilynol mewn costau; ac • y byddai'r EDCS yn datblygu papur sy'n amlinellu'r ailstrwythuro yn y Gwasanaethau Corfforaethol, y rhesymeg dros wneud hynny a sut y byddai'r strwythurau diwygiedig yn cefnogi'r gwaith o gyflawni'r uchelgeisiau; byddai'r papur hwnnw'n cael ei gyflwyno i'r ELT ac yna'n cael ei rannu â'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol ac AD ym mis Ebrill 2022. 	EDCS
7.3	<p>Nododd y Bwrdd na fyddai'n arfer ystyried ailstrwythuro ar lefel weithredol, ond ei fod wedi cymryd rhan o ganlyniad i gynnwys trefniadau cymorth y Bwrdd. Roedd y Bwrdd yn fodlon ag esboniad yr Archwilydd Cyffredinol a ddarparodd gofnod o'r newid, o'r penderfyniad gwreiddiol, a nododd y byddai trosolwg o'r newidiadau o ran ailstrwythuro'r Gwasanaethau Corfforaethol yn cael ei ddarparu i'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol ac AD.</p>	
7.4	<p>Cafodd y Bwrdd drafodaeth fer ynghylch ailagor y swyddfa a nododd fod y rheolwyr yn annog y staff i ddychwelyd i ymgysylltu â'u timau neu glystyrau ac y byddai'n adolygu'r gallu i ehangu'r capasiti yn swyddfa Caerdydd a sut y gellid defnyddio ystafelloedd archwilio'n ddiogel, gan ddibynnu ar y dull a ddefnyddir gan y cyrff archwiliedig dan sylw.</p>	
7.5	<p>Mewn ymateb i gwestiwn ar ddarparu adnoddau a phwysau gwaith, esboniodd yr EDAS, yn dilyn trafodaeth â chyrrff archwiliedig a Chymdeithas Trysoryddion Cymru, y byddai rhai terfynau amser archwilio yn cael eu hystemyn.</p>	
7.6	<p>Fel arall, nododd y Bwrdd yr adroddiad.</p>	
8.	Yr wybodaeth ddiweddaraf gan y Cadeirydd	
8.1	<p>Cyflwynodd y Cadeirydd ei diweddariad ysgrifenedig i'r Bwrdd a thynnodd sylw at y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • roedd y gwaith cynllunio ar gyfer diwrnod datblygu y Bwrdd ar y gweill, gyda'r nod o drefnu dyddiad yn gynnar yn y gwanwyn; a • byddai Ysgrifennydd y Bwrdd yn gofyn am sylwadau gan aelodau'r Bwrdd a'r ELT wrth adolygu swyddogaeth gyswllt y Bwrdd. 	KD
8.2	<p>Nododd y Bwrdd yr wybodaeth ddiweddaraf gan y Cadeirydd.</p>	
9.	Adroddiad gan y Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol ac AD 16 Tachwedd 2021	
9.1	<p>Cyflwynodd Cadeirydd y Pwyllgor adroddiad cyfarfod y Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol ac AD a gynhaliwyd ar 16 Tachwedd a</p>	

Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru
Cofnodion cyfarfod dydd Mercher 26 a dydd Iau 27 Ionawr 2022

Eitem	Cofnodion	Gweithredu
	thynnodd sylw at yr argymhelliad ar y strategaeth gyflogau i'w chymeradwyo gan y Bwrdd.	
9.2	<p>Trafododd y Bwrdd y strategaeth gyflogau arfaethedig yn gryno gan nodi:</p> <ul style="list-style-type: none"> • perthnasedd y strwythur cyflogau a phecyn buddion deniadol wrth ddenu a chadw staff o ansawdd uchel mewn marchnad gystadleuol iawn, • y risg y gallai paramedr y gyllideb fod yn annigonol, gan ystyried cyfraddau chwyddiant, data meincnodi cyflogau a chanllawiau cyflog Llywodraeth Cymru; a • bod y rheolwyr yn archwilio dull arall posibl o gysylltu cyflogau â mynegai ac y byddent yn trafod hyn â'r undebau llafur. 	
9.3	<p>Nododd y Bwrdd y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • byddai'r rheolwyr yn trafod cwmpas yr adolygiad o fuddion ariannol ac anariannol â Grant Thornton, a byddai'r EDCS yn ystyried sut i gynnwys y Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol ac AD wrth ddatblygu cwmpas yr adolygiad; ac • wrth fynd i'r afael â materion darparu adnoddau, gellid ystyried cyfleoedd i staff nad ydynt yn staff archwilio ddatblygu a datblygu mewn gyrfaoedd archwilio yn fewnol. 	EDCS
9.4	<p>Fel yr argymhellwyd gan y Pwyllgor, gwnaeth y Bwrdd y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • cymeradwyo'r cynigion a nodir ym mhapur WAOB(60)-21-006 yn sail i Strategaeth Cyflogau a Gwobrwyo 2022/23, ac • awdurdodi'r EDCS a'r Pennaeth AD i gynnal trafodaethau cyflogau â'r undebau llafur. 	
9.5	Fel arall, nododd y Bwrdd yr adroddiad.	
10.	Adroddiad gan y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg Rhagfyr 2021	
10.1	<p>Cyflwynodd Cadeirydd y Pwyllgor adroddiad cyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg a gynhaliwyd ar 14 Rhagfyr. Tynnodd sylw'r Bwrdd at yr adolygiad archwilio mewnol o seiberddiogelwch, ac er bod ei gwmpas yn gyfyngedig, roedd wedi ei gategoreiddio fel risg uchel. Amlinellodd fwriad y Pwyllgor i gynnal adolygiad ehangach o risg seiber a'r gwaith o reoli gwybodaeth yn ei gyfarfod nesaf.</p>	
10.2	<p>Roedd y Bwrdd yn cydnabod pwysigrwydd deall a rheoli risg seiber o safbwynt technegol a phobl/ymddygiad a chadarnhaodd y byddai'n hapus i'r Pwyllgor gynnal adolygiad dwfn yn ei gyfarfod nesaf. Anogodd y Bwrdd y Pwyllgor i sicrhau ei fod yn gallu cael gaffael ar arbenigedd allanol penodol pe byddai angen a byddai Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg yn ystyried hynny gyda'r EDCS.</p>	IR
10.3	<p>Rhoddodd Cadeirydd y Pwyllgor yr wybodaeth ddiweddaraf i'r Bwrdd am gaffael yr Archwiliad Mewnol ac esboniodd fod un tendr wedi dod i law. Roedd y tendr a dderbyniwyd yn gynhwysfawr, ond roedd y costau cysylltiedig yn uchel ac roedd yr EDCS yn archwilio'r dewisiadau ar gyfer archwiliad mewnol ac i'w trafod gan y Pwyllgor ym mis Chwefror.</p>	

Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru
Cofnodion cyfarfod dydd Mercher 26 a dydd Iau 27 Ionawr 2022

Eitem	Cofnodion	Gweithredu
10.4	Fel arall, nododd y Bwrdd yr adroddiad.	
11.	Adolygiad llywodraethu: yr wybodaeth ddiweddaraf	
11.1	<p>Cyflwynodd yr EDCS bapur yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Bwrdd am waith y grŵp gorchwyl a gorffen llywodraethu. Eglurodd y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • bod model llywodraethu da wedi ei ddatblygu ar gyfer Archwilio Cymru; • y byddai tudalen HYB ar gyfer yr ELT, y Bwrdd a'r Pwyllgorau yn cael ei lansio'n fuan â chymorth cyfathrebu gan yr EEMau; a • byddai'r model a'r dudalen HYB yn cael eu hadolygu a'u datblygu'n raddol dan arweiniad Ysgrifennydd y Bwrdd, gyda chymorth a chyfraniad gan y grŵp neu ei aelodau ar sail ad hoc. 	
11.2	<p>Trafododd y Bwrdd:</p> <ul style="list-style-type: none"> • a oedd y model yn ymgorffori egwyddorion yn ddigonol gan gydnabod ymrwymiad y Bwrdd i amrywiaeth cydraddoldeb a chynhwysiant; byddai Ysgrifennydd y Bwrdd yn ystyried a oedd y model yn mynd i'r afael â hyn; • sut yr oedd llywodraethu da yn ymestyn y tu hwnt i'r Bwrdd i'r sefydliad ehangach a'i weithgareddau, ei bolisiâu a'i strategaethau fel proses barhaus; byddai Cadeirydd y Bwrdd yn trafod swyddogaethau a chyfrifoldebau er mwyn datblygu llywodraethu sefydliadol da ymhellach gyda'r EDCS ac Ysgrifennydd y Bwrdd, gan gydnabod yr effaith ar adnodu a'r angen am ddull cymesur; • y cysylltiad rhwng llywodraethu da a'r argymhelliad o adolygiad effeithiolrwydd y Bwrdd sef y dylai'r Bwrdd ystyried sut i gyflawni model meddyliol a rennir o gylch gwaith statudol a phwrpas cyffredinol y Bwrdd; byddai'r Cadeirydd y Bwrdd a'r EDCC yn ystyried hyn wrth lunio cwrpas gweithgarwch datblygu y Bwrdd. 	<p style="text-align: center;">KD</p> <p style="text-align: center;">Y Cadeirydd / EDCS / KD</p> <p style="text-align: center;">Y Cadeirydd / EDCC</p>
11.3	Dangosodd Ysgrifennydd y Bwrdd dudalen yr Hyb yn gyflym.	
11.4	Nododd y Bwrdd yr wybodaeth ddiweddaraf.	
12.	Trefniadau ar gyfer penodi EEM 2022	
12.1	<p>Cyflwynodd Ysgrifennydd y Bwrdd bapur yn amlinellu newidiadau arfaethedig i'r amserlen a'r rheolau gweithdrefnol ar gyfer y broses cyflogeion etholedig sydd ar ddod. Eglurodd y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • bod yr amserlen wedi ei hymestyn i ganiatáu am gyfnod ymgyrchu hwy, ond nad oedd yn ymarferol osgoi cyfnodau prysur i archwilwyr yn llwyr; a • bod gweithgarwch ymgyrchu a ganiateir wedi ei ddatblygu, gan ystyried adborth, er mwyn caniatáu ystod ehangach o waith ymgyrchu a chyfathrebu anffurfiol drwy Yammer. 	
12.2	Cymeradwyodd y Bwrdd y rheolau etholiad diwygiedig a'r amserlen ddangosol ar gyfer etholiad 2022.	

Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru
Cofnodion cyfarfod dydd Mercher 26 a dydd Iau 27 Ionawr 2022

Eitem	Cofnodion	Gweithredu
13.	Adrodd ar berfformiad, gan gynnwys yr adroddiad cyllid, y gofrestr risgiau strategol a pherfformiad chwarter dau	
(a) adroddiad cyllid		
13.1	<p>Cyflwynodd y Pennaeth Cyllid bapur yn amlinellu sefyllfa ariannol ddiwedd mis Rhagfyr a darparodd yr wybodaeth ddiweddaraf ar lafar am y sefyllfa ariannol bresennol. Esboniodd ei bod yn disgwyl i ddirywiad pellach mewn incwm leihau'r gwaged a ragwelwyd ond na ddisgwyd i hyn arwain at ddiffyg. Mynegodd y Bwrdd ei bryder ynghylch rhagweld ansicrwydd ac amrywiadau, yn enwedig tua diwedd y flwyddyn. Esboniodd y Pennaeth Cyllid:</p> <ul style="list-style-type: none"> • fod yr adolygiad chwarterol o'r gyllideb yn darparu sefyllfa fwy cywir na'r rhagolygon sy'n seiliedig ar dybiaethau misol; a • bod disgwyl i'r system adnodu a chofnodi amser newydd gynnig adolygiadau cyllideb amlach sy'n rhoi mwy o gywirdeb wrth ragweld. 	
13.2	<p>Trafododd y Bwrdd yn gryno:</p> <ul style="list-style-type: none"> • y tanwariant a ragwelir ar wariant cyfalaf, gan nodi effaith oedi wrth gaffael; • effaith swyddi gwag; a • y bwriad i ildio unrhyw warged i Gronfa Gyfunol Cymru. 	
13.3	<p>Nododd y Bwrdd yr adroddiad ac y byddai'n croesawu'r cywirdeb ychwanegol wrth ragweld o ddefnyddio'r system adnodu a chofnodi amser newydd.</p>	
(b) cofrestr risgiau strategol		
13.4	<p>Cyflwynodd y Pennaeth Cynllunio ac Adrodd bapur yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Bwrdd am y gofrestr risgiau strategol a ddiwygiwyd er mwyn integreiddio'r broses o fapio sicrwydd yn unol ag argymhelliad gan y tîm Archwilio Mewnol.</p>	
13.5	<p>Trafododd y Bwrdd yn gryno y meysydd risgiau allweddol a amlygwyd gan y rheolwyr fel meysydd allweddol sy'n peri pryder, ac a ellid lleihau neu gau unrhyw risgiau.</p>	
13.6	<p>Gwnaeth y Bwrdd:</p> <ul style="list-style-type: none"> • nodi'r adroddiad ac y byddai offeryn adrodd diweddaredig yn cynnwys dangosyddion i ddangos symudiadau risgiau; ac • annog rheolwyr i adolygu'r sgoriau risg gweddilliol er mwyn sicrhau bod sgoriau yn realistig. 	
14	Cynllun Blynyddol 2022–23 a Strategaeth Pum Mlynedd: Datblygu Dangosyddion Perfformiad Allweddol	
14.1	<p>Cyflwynodd yr EDCC bapur yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Bwrdd am y gwaith a wnaed gan yr ELT er mwyn:</p> <ul style="list-style-type: none"> • adolygu Dangosyddion Perfformiad Allweddol y Cynllun Blynyddol; 	

Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru
Cofnodion cyfarfod dydd Mercher 26 a dydd Iau 27 Ionawr 2022

Eitem	Cofnodion	Gweithredu
	<ul style="list-style-type: none"> • datblygu cyfres o Ddangosyddion Perfformiad Allweddol i fonitro'r gwaith o gyflawni'r strategaeth pum mlynedd; ac • ystyried cyfres o ddangosyddion iechyd sefydliadol. <p>Esboniodd fod yr ELT wedi dod i'r casgliad y dylid cynnal y Dangosyddion Perfformiad Allweddol ar gyfer y cynllun blynyddol, yn amodol ar adolygu'r targedau.</p>	
14.2	<p>Nododd y Bwrdd, er gwaethaf penderfyniad blaenorol y Bwrdd am adolygiad sylweddol o Ddangosyddion Perfformiad Allweddol, gan symud tuag at ddangosyddion sy'n seiliedig ar ganlyniadau ar gyfer 2022–23, na fu unrhyw newid sylweddol. Fodd bynnag, nododd y Bwrdd y cyfle a ddarparwyd drwy ddatblygu cyfres newydd o Ddangosyddion Perfformiad Allweddol ar gyfer y strategaeth 5 mlynedd.</p>	
14.3	<p>Wrth esbonio'r rhesymeg dros y dull a argymhellwyd gan yr ELT, amlinellodd yr Archwilydd Cyffredinol a'r Prif Weithredwr gymhlethdodau wrth bennu llinell sylfaen ar gyfer Dangosyddion Perfformiad Allweddol sy'n seiliedig ar ganlyniadau, gan fesur yr effaith yn sgil hynny. Esboniodd, yn absenoldeb adborth gan randdeiliaid ar gyfer y flwyddyn gyfredol, y byddai'n anodd datblygu cyfres o Ddangosyddion Perfformiad Allweddol sy'n seiliedig ar ganlyniadau, a allai redeg ochr yn ochr â'r Dangosyddion Perfformiad Allweddol presennol am gyfnod nes bod modd dadansoddi tueddiadau.</p>	
14.4	<p>Amlinellodd y Pennaeth Cynllunio ac Adrodd y gwelliannau a wnaed i Ddangosyddion Perfformiad Allweddol y Cynllun Blynyddol dros amser ac esboniodd yr heriau, yn Archwilio Cymru ac ar draws y sector archwilio cyhoeddus, wrth ddatblygu a mesur Dangosyddion Perfformiad Allweddol sy'n seiliedig ar ganlyniadau.</p>	
14.5	<p>Cydnabu'r Bwrdd yr heriau o ran newid y dull i Ddangosyddion Perfformiad Allweddol sy'n seiliedig ar ganlyniadau ac wrth bennu data sylfaenol, ond anogodd y rheolwyr i ystyried meincnodi o'u cymharu â sefydliadau eraill sy'n defnyddio mesurau sy'n seiliedig ar ganlyniadau ar hyn o bryd, gan ddysgu o hyn. Bydd yr EDCC yn archwilio hyn ymhellach.</p>	EDCC
14.6	<p>Cymeradwyodd y Bwrdd argymhellion yr ELT:</p> <ul style="list-style-type: none"> • o ran cadw'r gyfres bresennol o Ddangosyddion Perfformiad Allweddol y Cynllun Blynyddol ar gyfer 2022–23, yn amodol ar adolygu'r broses casglu data a thargedau fel yr amlinellir yn Arddangosyn 1 ym mhapur WAOB(60)-21-011; • i Gyfarwyddwyr Ymgysylltu geisio sylwadau gan randdeiliaid yn ystod 2022/23; • i gomisiynu sefydliad allanol i gynnal ymarfer adborth rhanddeiliaid dyfnach ac ehangach yn gynnar yn 2023. • i'r ELT ddatblygu cyfres o Ddangosyddion Perfformiad Allweddol i gefnogi'r gwaith o gyflawni'r Strategaeth 5 mlynedd a'r Map Ffyrdd 	

Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru
Cofnodion cyfarfod dydd Mercher 26 a dydd Iau 27 Ionawr 2022

Eitem	Cofnodion	Gweithredu
	<p>i'w trafod a sylwadau'r Bwrdd yng nghyfarfod y Bwrdd ym mis Mawrth 2022; ac</p> <ul style="list-style-type: none"> i'r EDCC a'r EDCS gynnig cyfres o Ddangosyddion Perfformiad Allweddol Iechyd Sefydliadol i gefnogi data perfformiad ariannol ac AD, er mwyn rhoi sicrwydd ar drefniadau cydymffurfedd a llywodraethu. 	
15.	Y diweddaraf am y penderfyniad i wneud gwaith archwilio cyfrifon yn fewnol	
15.1	Cyflwynodd yr EDAS bapur yn adolygu penderfyniad y Bwrdd i wneud gwaith archwilio cyfrifon yn fewnol. Amlinellodd yn gryno gefndir y penderfyniad a wnaed gan y Bwrdd yn 2019 ac esboniodd fod yr ELT o'r farn bod y tybiaethau yr oedd y Bwrdd yn dibynnu arnynt wrth wneud ei benderfyniad yn parhau i fod yn ddilys.	
15.2	Nododd y Bwrdd fod y sylwadau gan gyrff archwiliedig wedi bod yn gadarnhaol ar y cyfan, bu'n bosibl cynnal rhai archwiliadau drwy gyfrwng y Gymraeg a darganfuwyd rhai materion cyfrifyddu a allai fod wedi eu methu fel arall.	
15.3	<p>Gwnaeth y Bwrdd y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> cadarnhau ei benderfyniad i'r holl waith archwilio gael ei wneud yn fewnol yn y tymor byr, ac eithrio pan fo angen cyfraniad arbenigol ar gyfer darnau penodol o waith; cadarnhau y dylai'r EDAS gynnal adolygiadau blynyddol o'r penderfyniad a wnaed gan y Bwrdd ym mis Ionawr 2019 ac adrodd ar y canlyniadau ac unrhyw argymhellion i'r ELT a'r Bwrdd; cymeradwyo cynnig yr EDAS i ddatblygu safbwynt tymor hwy am y posibilrwydd o drefnu gwaith archwilio ar gontract allanol, i'w ystyried gan yr ELT a'r Bwrdd (ar ôl cwblhau ymarfer cynllunio gweithlu presennol y Gwasanaethau Archwilio). 	
16.	Adolygiad o'r flaenraglen waith	
16.1	Trafododd y Bwrdd ei flaenraglen waith a chytunodd y byddai'n cadw sesiwn strategol ar 16 Mawrth a fyddai'n cynnwys trafodaeth ar ddatblygiad Dangosyddion Perfformiad Allweddol. Byddai Ysgrifennydd y Bwrdd yn ystyried y sylwadau hyn wrth ddiweddarau'r rhaglen waith dros dro.	
16.2	Ar ôl cymeradwyo 'saib' sefydliadol, cydnabu'r Bwrdd y byddai'n ystyried hynny wrth gynllunio agendâu ac wrth gyflwyno eitemau i'r Bwrdd.	
17.	Adolygiad o'r cyfarfod	
17.1	<p>Wrth adolygu'r cyfarfod, nododd yr aelodau y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> y drafodaeth gadarnhaol ar gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant; dyfnder ac ehangder eu trafodaethau; 	

Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru
Cofnodion cyfarfod dydd Mercher 26 a dydd Iau 27 Ionawr 2022

Eitem	Cofnodion	Gweithredu
	<ul style="list-style-type: none"> • y gwerthoedd a'r ymddygiad cadarnhaol a arddangosir yn wyneb rhai trafodaethau heriol; a • gwerth sicrhau angenrheidrwydd a pherthnasedd eitemau ar yr agenda er mwyn ystyried pwysau llwyth gwaith ar draws y sefydliad. 	
17.2	<p>Gwnaeth yr arsyllwyr sylwadau ar:</p> <ul style="list-style-type: none"> • yr amrywiaeth eang o bynciau a drafodwyd; • lefel yr ymgysylltu gan aelodau, ymddygiad da a her adeiladol; • cynnal y cyfarfod yn effeithiol; a • sut y gallent gysylltu â'r materion sy'n cael eu trafod. 	
18.	Unrhyw fusnes arall (a wnaed yn breifat)	
18.1	Rhoddodd yr EDCC ddiweddariad cryno ar weithredu'r adolygiad teithio a chynhaliaeth, gan gynnwys y gwaith ymgysylltu parhaus â'r undebau llafur a'r broses ar gyfer gweithredu telerau ac amodau newydd.	
19.	Dyddiad y cyfarfod nesaf:	
19.1	16 a 17 Mawrth 2022	